Cyllid & Thollau EF

# Peidiwch â cholli'r cyfle am Fudd-dal Plant - beth mae angen i deuluoedd wybod amdano

## Pecyn adnoddau



# Rhagarweiniad

Hoffwn wneud yn siŵr bod rhieni a gofalwyr yn cael yr holl gymorth y mae ganddynt hawl iddo – felly dyma rywfaint o wybodaeth bwysig am Fudd-dal Plant y mae angen i chi a'ch rhwydweithiau wybod amdani.

Mae croeso i chi rannu'r wybodaeth hon ar unrhyw un o'ch sianeli, gan gynnwys y canlynol:

- E-bost/copi ar gyfer cylchlythyrau
- SMS a negeseuon ap
- Negeseuon cyfryngau cymdeithasol

## Budd-dal Plant

Gall rhieni a gofalwyr nawr hawlio £25.60 o Fudd-dal Plant yr wythnos ar gyfer eu plentyn cyntaf ac £16.95 ar gyfer unrhyw blant eraill sydd ganddynt. Nid oes terfyn ar nifer y plant y gallant hawlio ar eu cyfer.

Mae Budd-dal Plant yn werth £1,331.20 y flwyddyn ar gyfer y plentyn cyntaf ac £881.40 y flwyddyn ar gyfer pob plentyn ychwanegol. Caiff ei dalu i gyfrifon banc bob pedair wythnos (neu bob wythnos o dan rai amgylchiadau).

Rydym hefyd wedi gwneud hawlio Budd-dal Plant yn haws o lawer. Nid oes angen ffurflen bapur ar rieni bellach er mwyn hawlio a gallant hawlio'n gyflym ac mewn ffordd gyfleus trwy ap CThEF neu ar-lein. Mae hawliadau'n cael eu hôl-ddyddio hyd at 3 mis.

## Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel

Ym mis Ebrill 2024, bydd y swm y gall pobl ei ennill cyn dechrau talu'r Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel (HICBC) **gynyddu i £60,000**.

Gall hawlio fod yn werth ei wneud yn ariannol i rieni a gofalwyr sydd heb hawlio Budd-dal Plant eto neu sydd wedi optio allan o gael taliadau a bod ganddynt incwm rhwng £60,000 ac £80,000.

Y ffordd fwyaf hwylus o hawlio yw drwy ap CThEF, sy'n rhad ac am ddim, neu ar-lein.

Os ydyn nhw eisoes yn hawlio ond maen nhw wedi optio allan o gael taliadau, nid oes angen iddynt wneud cais eto – yn syml, gall y rhiant neu'r gofalwr a hawliodd yn wreiddiol optio yn ôl i mewn ar yr ap neu ar-lein.

**Noder:** Os oedden nhw, neu eu partneriaid, wedi hawlio Budd-dal Plant cyn 6 Ebrill 2024 ac roedd gan yr enillydd uwch incwm unigol o dros £50,000, mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt dalu'r tâl treth ar gyfer 2023 i 2024. Gallant wirio'r gyfrifiannell treth Budd-dal Plant i ddysgu rhagor.

# Adnoddau cynorthwyol i’w rhannu â theuluoedd

## E-bost/copi ar gyfer cylchlythyrau

**Peidiwch â cholli’r cyfle o gael hyd at £1,331 o Fudd-dal Plant y flwyddyn.**
Ydych chi’n rhiant neu’n ofalwr sydd ddim yn hawlio Budd-dal Plant, neu sydd wedi optio allan o gael taliadau oherwydd y Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel?

Roedden ni eisiau rhoi gwybod i chi fod y swm y gallwch ei ennill cyn gorfod dechrau talu’r tâl wedi cynyddu o £50,000 i £60,000. Os oes gennych chi a’ch partner incwm net wedi’i addasu o lai na £60,000, nid oes angen i chi dalu’r tâl mwyach.

Os oes gennych chi neu’ch partner incwm net wedi’i addasu rhwng £60,000 ac £80,000, mae’n dal i fod yn bosibl bod hawlio’n werth i chi ei wneud yn ariannol, felly mae gwerth gwirio beth y byddech chi’n ei gael.

Mae mwy i Fudd-dal Plant na’r taliadau eu hunain — byddwch hefyd yn:

- cael credydau Yswiriant Gwladol a fydd yn cyfrif tuag at eich Pensiwn y Wladwriaeth
- gwneud yn siŵr bod eich plentyn yn cael rhif Yswiriant Gwladol yn awtomatig pan fydd yn 16 oed

Mae hawlio ar ap CThEF neu ar-lein yn gyflym ac yn hawdd.

Os ydych eisoes yn hawlio ond eich bod chi wedi optio allan o gael taliadau a hoffech chi ailddechrau’r rhain, nid oes angen i chi hawlio eto – yn syml, gall y rhiant neu’r gofalwr a hawliodd yn wreiddiol optio yn ôl i mewn ar yr ap neu ar-lein.

Cofiwch, os oeddech chi wedi hawlio Budd-dal Plant cyn 6 Ebrill 2024 ac roedd gennych chi neu’ch partner incwm unigol o dros £50,000, mae’n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu’r tâl treth ar gyfer 2023 i 2024. Gallwch wirio’r gyfrifiannell treth Budd-dal Plant i ddysgu rhagor.

**Ewch amdani – lawrlwythwch ap CThEF**

Gallwch fwrw golwg dros eich hawliad a’i reoli’n gyflym ac yn hawdd ar ap CThEF. Mae hyn yn cynnwys bwrw golwg dros daliadau, tystiolaeth o hawl, ac ychwanegu plant ychwanegol – y cyfan heb fod angen ffonio CThEF.

Trwy lawrlwytho’r ap, gallwch fewngofnodi’n haws fyth drwy ddefnyddio PIN, dull adnabod yr wyneb neu ôl eich bys – gan roi popeth sydd angen i chi ei wybod am eich hawliad Budd-dal Plant ar flaen eich bysedd.

## Negeseuon hysbysu mewn ap a thrwy SMS

| **Copi ar gyfer apiau/SMS** |
|---|
| Ennill o dan 80k ond ddim yn hawlio Budd-dal Plant? Gwirio allai fod o werth ariannol hawlio ar-lein heddiw: www.gov.uk/budd-dal-plant/yr-hyn-y-byddwch-yn-ei-gael |
| Hawlio Budd-dal Plant? Cewch dystiolaeth o’ch hawl yn gyflym ac yn hawdd ar ap CThEF. Lawrlwythwch yr ap nawr: www.gov.uk/guidance/download-the-hmrc-app.cy |

## Negeseuon cyfryngau cymdeithasol

Rydym wedi atodi rhai asedion ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i’n neges e-bost, rhag ofn yr hoffech ddefnyddio’r rhain ar eich sianeli eich hunain. Dyma rai o’n negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol:

| **Copi ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol** | Ased |
|---|---|
| Ydych chi’n ennill llai nag £80k? Peidiwch â cholli’r cyfle am gael ar eich taliadau Budd-dal Plant. 💷<br><br>Dysgwch ragor a hawlio ar-lein neu drwy ap CThEF. 👇<br><br>Budd-dal Plant: Yr hyn y byddwch yn ei gael - GOV.UK |  |
| Ydych chi’n ennill llai nag £80k ond wedi optio allan o gael taliadau Budd-dal Plant? Peidiwch â bod ar eich colled. 💷<br><br>Dysgwch ragor ac ailddechrau’ch taliadau ar-lein neu drwy ap CThEF. 👇<br><br>Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel: Ailddechrau’ch taliadau Budd-dal Plant - GOV.UK |  |
| Rhieni a gofalwyr – wyddoch chi y gallwch gael tystiolaeth o’ch hawliad am Fudd-dal Plant 🧒 (sy’n ddefnyddiol ar gyfer ceisiadau am le i’ch plentyn mewn ysgol, Budd-dal Tai, Treth Gyngor a gwasanaethau eraill) a bwrw golwg dros eich pum taliad diwethaf heb orfod rhoi galwad i CThEF?<br><br>Ewch ar-lein neu ar ap CThEF. 👇<br><br>Lawrlwytho ap CThEF - GOV.UK |  |